# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Ionawr 2016

Amser: 09.15 - 12.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3374

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Alun Ffred Jones AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC<br>Sandy Mewies AC (yn lle Jeff Cuthbert AC)<br>Russell George AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Janet Haworth AC<br>Julie Morgan AC<br>William Powell AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol<br>Rebecca Evans AC, Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd<br>Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>Tony Clark, Llywodraeth Cymru<br>Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 325KB) Gweld fel HTML (277KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jeff Cuthbert. Dirprwyodd Sandy Mewies ar ei ran.

## 2 Craffu ar y gyllideb ddrafft

### 2.1 Craffu ar y Gyllideb Ddrafft - y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

2.1.1 Cytunodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ddarparu nodyn ar:

- faint o fuddsoddiad Ewropeaidd a ddefnyddiwyd yng nghynlluniau amddiffynfeydd llifogydd Llywodraeth Cymru;
- nifer y ceisiadau am gyllid o'r gronfa twf gwyrdd sydd wedi dod i law hyd yn hyn;
- rhaglen trin gwastraff gweddilliol Llywodraeth Cymru; a'r
- awdurdod â chyfrifoldeb am ymdrin â phroblemau llifogydd ym Mharc Caedelyn yng Nghaerdydd.

## 2.2 Craffu ar y Gyllideb Ddrafft - y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'r Dirprwy Gweinidog Ffermio a Bwyd

2.2.1 **Datgan buddiannau**: Datganodd William Powell fod gan fusnes y mae'n bartner ynddo berthynas fasnachol gyda micro ladd-dy ym Mhowys, sy'n berchen gan W.J. George.

2.2.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i roi nodyn ar:

- y niferoedd yn ymuno â phob un o gynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig gyfredol; a'r

- cyfleoedd am gyllid ar gyfer ardaloedd trefol sy'n bodoli o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig.

# 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfodydd ar 27 Ionawr a 10 Chwefror

3.1 Derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor y cynnig.